## 6 GWERTHUSO

***SUT YDYCH YN GWYBOD BOD Y PROJECT YN/WEDI CYFLAWNI EI AMCANION?***

Mae'n ddefnyddiol cynnwys gwerthuso yn y project (yn arbennig gyda phroject ar raddfa fawr). Yn ystod y project, mae'n syniad da sicrhau'r canlynol:

- **Ymateb cychwynnol -** er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r dulliau a'r problemau posib a llywio'r cam nesaf
- **Defnydd -** dadansoddiad o ddull gweithredu'r project i asesu effeithiolrwydd y broses o ddadansoddi a gweithredu

Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad o'r project, mae'n ddefnyddiol dadansoddi effaith a llwyddiant cymharol y project a nodi meysydd pellach y gallai fod angen rhoi sylw iddynt. Mae'r gwerthusiadau a awgrymwyd ar ôl cwblhau'r project yn cynnwys:

- **Canlyniadau tymor byr -** dadansoddiad o effaith cychwynnol a chanlyniadau rhoi'r project ar waith. Gwneir hyn 6 mis ar ôl cwblhau'r project.
- **Effaith tymor hir -** asesu effaith tymor hir y canlyniadau a'r cynnyrch. Gwneir hyn flwyddyn ar ôl cwblhau'r project.

Gellir cynnwys hefyd adran 'gwersi a ddysgwyd' sy'n rhan o'r ddau werthusiad olaf er mwyn amlinellu pa wersi a ddysgwyd yn ystod y project a fydd yn cefnogi gwelliant parhaus yn y brifysgol.

| **Lefel werthuso** | **Rhai cwestiynau i'w hystyried:** |
|---|---|
| **Ymateb cychwynnol** | • A ydych yn deall amcan cyffredinol y project?<br>• A yw nod y project yn cyfrannu at amcanion cyffredinol y brifysgol?<br>• A yw'r materion allweddol sy'n hanfodol i lwyddiant y project wedi cael sylw llawn?<br>• A yw gofynion y budd-ddeiliaid wedi eu deall yn llawn?<br>• A yw'r ystyriaethau'n ymwneud â chydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, cynaliadwyedd a risg wedi cael sylw llawn?<br>• A ydych yn teimlo eich bod wedi deall y dadansoddiad sefydliadol yn llawn?<br>• A ydych yn teimlo eich bod wedi deall y dadansoddiad bwlch yn llawn?<br>• A yw'r dadansoddiad bwlch wedi nodi bylchau clir o ran pobl, perfformiad a phrosesau?<br>• A oes unrhyw agweddau a fydd yn effeithio ar y project rydych yn credu nad ydynt wedi'u nodi hyd yma y dymunwch iddynt gael eu hystyried?<br>• A ydych yn teimlo eich bod yn glir yn awr ynghylch camau'r broses P3? |

| | |
|---|---|
| | • Beth sydd wedi bod fwyaf defnyddiol/difyr ynghylch y project i chi hyd yma?<br>• Beth sydd wedi bod lleiaf defnyddiol/difyr ynghylch y project i chi hyd yma?<br>• A ydych wedi cael budd o'r rhwydweithio ac o weithio gyda thîm arall sy'n gweithredu'r un system? (dim ond os ydych yn gweithio gyda thîm arall) Os ydych, nodwch beth oedd yn ddefnyddiol i chi.<br>• Pa welliannau ydych chi'n credu y gellid eu gwneud i'r dull gweithredu presennol a fyddai'n gwella canlyniad y project P3?<br>• Pa awgrymiadau sydd gennych i wneud y project yn fwy effeithiol? |
| **Defnydd** | • A oedd y dadansoddiad cychwynnol (y dadansoddiad amgylcheddol a'r dadansoddiad bwlch) yn ddefnyddiol o ran y canlynol: bod yn glir iawn ynghylch canlyniadau'r project, nodi ystod eang o faterion a fydd yn cael effaith ar y canlyniadau, adnabod ffactorau a allai fod wedi cael eu hanwybyddu fel arall?<br>• Pa welliannau ydych chi'n credu y gellid eu gwneud i'r dull gweithredu a fyddai'n gwella canlyniad y project P3?<br>• Pe baech yn defnyddio'r broses P3 eto ar gyfer project, pa awgrymiadau sydd gennych i wneud y broses yn fwy effeithiol?<br>• A ydych wedi cael budd o'r rhwydweithio ac o weithio gyda thîm arall sy'n gweithredu'r un system? (os ydych yn gweithio gyda thîm arall) Os ydych, nodwch beth oedd yn ddefnyddiol i chi.<br>• Pa awgrymiadau sydd gennych ar gyfer defnyddio'r broses P3 yn effeithiol?<br>• Was A oedd y dull P3 yn ddefnyddiol o ran y canlynol: bod yn glir iawn ynghylch canlyniadau'r project, nodi ystod eang o faterion a fydd yn cael effaith ar y canlyniadau, adnabod ffactorau a allai fod wedi cael eu hanwybyddu fel arall? |
| **Canlyniadau tymor byr** | • Beth yw prif ganlyniadau'r project hyd yma?<br>• Pa gynnydd a wnaed o ran y dadansoddi bylchau?<br>• Pa agweddau ar y project sy'n datblygu'n dda? |

| | |
|---|---|
| | • Pa agweddau ar y project nad ydynt yn datblygu gystal?<br>• Os oes unrhyw agweddau ar y project nad ydynt yn datblygu'n dda, beth yw'r rhwystrau i gynnydd? Amlinellwch y camau sy'n rhaid eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.<br>• Pa newidiadau a wnaed i ddull gweithredu'r project ers cwblhau'r cynllun gweithredu?<br>• A oes unrhyw ddatblygiadau annisgwyl wedi digwydd? Os felly, beth ydynt a sut ydych yn mynd i'r afael â hwy? |
| **Effaith tymor hir a'r gwersi a ddysgwyd** | • Beth a gyflawnwyd yng nghyd-destun y dadansoddiad bylchau?<br>• Beth yw prif ganlyniadau'r project? (o ran dangosyddion perfformiad allweddol a'r cynnydd yng nghyd-destun y cynllun gweithredu)<br>• Pa gynnydd a wnaed ers cwblhau'r cynllun gweithredu?<br>• O ran symud trwy gamau'r P3 i ddatblygu'r cynllun gweithredu, a fyddech yn gwneud unrhyw beth yn wahanol yn awr?<br>• Pa agweddau ar y project sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus a pham?<br>•<br>• Pa agweddau ar y project sydd wedi bod lleiaf llwyddiannus a pham?<br>• Beth ydych wedi ei ddysgu'n bennaf o'r project fel aelod o'r tîm?<br>• Beth yw'r prif wersi a ddysgwyd o safbwynt y tîm?<br>• Beth yw'r prif wersi o'r project yr hoffech eu rhannu â'r brifysgol? |